



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIAANT **GOGLEDD CYMRU**
NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau o Gyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

4 Hydref 2017

9:30 yb – 12:30 yp

Optic, Parc Busnes Llanelwy

Yn Bresennol: Cyng Gareth Roberts, Bethan Jones Edwards, Mary Wimbury, Aled Davies (ar ran Morwena Edwards), Morag Olsen, Margaret Hanson, Neil Ayling, Cyng Joan Lowe, Audrey Somerton-Edwards (ar ran Clare Field), Caroline Turner, Vin West, Richard Debicki, Cyng Bobby Feeley, Debbie Shaffer, Clare Sullivan (ar ran David Worrall), Lynda Colwell, Rob Smith

Ymddiheuriadau: Nicola Stubbins, Morwena Edwards, Clare Field, Richard Weigh, Jenny Williams, Cyng Liz Roberts, Cyng Llinos Medi Huws, David Worrall, Wendy Jones, Cyng Christine Jones, Teresa Owen

Hefyd yn bresennol: Simon Jones, Cymunedau Digidol Cymru;
Gareth Watson, Sir Ddinbych

Eitem	Nodiadau	Camau Gweithredu
1.	<u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u> Croesawodd y Cyngorydd Roberts bawb i'r cyfarfod, gwnaethpwyd cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.	
2.	<u>Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf</u> Cytunwyd ar gofnodion o gyfarfod mis Medi fel gwir gofnod o'r cyfarfod. Dyweddodd y cadeirydd fod cais wedi'i wneud i ohirio'r adroddiad diweddariad cwmpas a chyflenwi Plant ag Anghenion Cymhleth i gyfarfod mis Tachwedd ac mae wedi cytuno i hynny. Mae'r llythyr gan ymateb i'r Gweinidog o ran cyllidebau cyfun wedi'i anfon ac mae wedi'i gynnwys yn y pecyn cyfarfod er gwybodaeth.	Wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd
3.	<u>Ffrydiau gwaith sydd o flaenoriaeth i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol - cynlluniau cwmpas a chyflenwi i'w cymeradwyo gan y Bwrdd:</u> <u>Pobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleth gan gynnwys Dementia – Rob Smith</u> Dyweddodd RS fod cyfarfod adeiladol wedi'i gynnal rhwng cydweithwyr sy'n gweithio ar strategaeth Pobl Hŷn PBC, ef ei hun, Morwena	

	<p>Edwards, Margaret Hanson a Bethan Jones Edwards ar 13.09.2017 i ddechrau'r broses o symleiddio meysydd o'r strategaeth a oedd yn rhoi sylw i faterion tebyg a chysylltu datblygiad y strategaeth gyda'r maes blaenoriaeth hwn i'r Bwrdd. Y cam nesaf fydd cynnal gweithdy i drafod gwerthoedd a blaenoriaethau a rhoddir gwahoddiad i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol iddo.</p> <p>Awgrymodd MO nad yw Pobl Hŷn mewn iechyd da ac sy'n cymryd rhan mewn grwpiau cymunedol, e.e. Gofal yn y Cartref, Siediau Dynion ac ati, wedi'u cynnwys yn y cwmpas hwn ac awgrymodd bod datganiad byr yn cael ei gynnwys ar ddechrau'r adroddiad.</p> <p>Dywedodd MH fod yr adroddiad wedi ceisio dal yr holl weithgareddau o ran Pobl Hŷn, a byddai'r gweithdy sy'n cael ei drefnu yn trafod cwmpas beth sy'n digwydd ymhellach o ran gweithgareddau i Bobl Hŷn yn y gymuned.</p> <p>Roedd MW yn cydnabod bod y Trydydd sector a darparwyr wedi'u cynnwys fel rhan o'r drafodaeth. Y nod yw lleihau cyfran y Bobl Hŷn sy'n mynd i gartrefi gofal ac nid lleihau'r nifer – mae hyn o ran y gwaith cenedlaethol sy'n cael ei wneud gan Steve Vaughan. Gofynnodd MW hefyd bod y geiriad o ran cartrefi gofal yn cael ei ddiwygio yn y cwmpas gan ei fod yn darllen fel pe bai cartrefi gofal yn broblemus ac nid hynny yw'r bwriad.</p> <p>Mae ardal i Bobl Hŷn sy'n byw'n annibynnol a Phobl Hŷn sydd angen cymorth wedi'i drafod a'i nodi yn yr adroddiad.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cytuno i gefnogi'r cynllun Cwmpas a Chyflenwi ar Bobl Hŷn ag Anghenion Cymhleth gan gynnwys Dementia.</p>	
4.	<p><u>Marchnad/Diweddariad rhaglen 5 diwrnod mewn ystafell – Rob Smith</u> Rhoddodd RS ddiweddariad am y rhaglen.</p> <p>Holodd MO am fanteision y ddogfen hon yn dod yn ôl i'r Bwrdd nawr y bydd ffrwd waith Pobl Hŷn yn datblygu, neu a oes rhannau penodol sydd angen edrych arnynt eto gan y Bwrdd.</p> <p>Gofynnodd NA am y gwahaniaeth rhwng y Rhaglen Waith Marchnad Darparwr a'r cynllun Pobl Hŷn ag Anghenion Cymhleth ac roedd yn meddwl a fyddai'n gwneud synnwyr dros amser, i gyfuno'r ddau faes gwaith hyn.</p> <p>Dywedodd MW fod nifer o ddarparwyr wedi rhoi eu hamser i fynychu gweithdai a hwyluso ymweliadau o ran y rhaglen, ond nid ydynt wedi cael adborth am y cynllun, cynnydd gwaith na diweddariad am newidiadau a wnaed.</p> <p>Cadarnhaodd RS y byddai'n ddefnyddiol cyfathrebu am gynnydd a chaiff trefniadau eu gwneud i feysydd gael adborth.</p>	RS i arwain ar gytuno a darparu diweddariad i ddarparwyr.

	<p>MH – adroddiad naratif a goddrychol. Byddai'n fanteisiol gweld effaith data a gasglwyd dros gyfnod y Gaeaf i fesur ac archwilio rhai o'r materion.</p> <p>Awgrymodd MO y byddai cyflwyniadau i'r Bwrdd gan ardaloedd y Dwyrain/Gorllewin a Chanolog yn ddefnyddiol, gan gynnwys adrodd ar sut mae cydweithio wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion sy'n gysylltiedig â 'Beth sy'n Bwysig'.</p> <p>Ailadroddodd LC fod cyfranogiad y Trydydd sector ar goll o'r cynllun gwaith, a rhoddodd enghraifft o sut gall y Trydydd sector weithio'n arloesol i gynorthwyo unigolion i ddychwelyd gartref.</p> <p>Roedd MW yn pryderu nad ydym wedi ymgynghori gyda Phobl Hŷn sydd yn y cartrefi gofal o gwbl a'r rhai nad oeddent am fynd i ofal, ond sydd wedi gweld bod hyn wedi gwneud eu bywydau yn llawer haws – beth mae'r bobl hyn ei eisiau a chyfeirio at sgwrs 'Beth sy'n Bwysig'.</p> <p>Pa wasanaethau amgen allwn eu darparu i rannu'r risgiau gyda theuluoedd, h.y. gofal seibiant, cam i fyny cam i lawr, heb roi pwysau ar y person hŷn i 'fynd gyda'r llif'.</p> <p>Amlygodd RD risg o ran diogelu a holodd a oedd angen rhoi sylw i hyn drwy'r Bwrdd.</p> <p>Dywedodd RS fod y risg wedi'i diweddarau bellach a chaiff y naratif ei ddiwygio.</p> <p>Cam Gweithredu Diweddarau'r adroddiad gyda disgrifiad ehangach ar gynnydd ar sail meysydd i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2018 i gynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Cynnydd a wnaed - cyflwyniad ii. Edrych ar y darlun ehangach gan gynnwys 'Beth sy'n Bwysig' a sut mae hyn yn gwneud gwahaniaeth i unigolion iii. Lle rydym yn mynd <p>Cynigiodd GR fod y cam gweithredu hwn yn cael ei gyflawni gan y Grŵp Arweinyddiaeth a'i adrodd yn ôl i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.</p> <p>Dywedodd MW nad yw aelodaeth y GA yn cynnwys partneriaid anstatudol a gofynnodd i'r aelodau anstatudol ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru gael eu gwahodd i'r grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer y drafodaeth hon.</p>	<p>RS – naratif i gael ei ddiweddarau ar dudalen 11.</p> <p>Anfon hwn at y LG i weithredu. Diweddarau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru</p>
--	--	--

<p>5.</p>	<p><u>Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru a Chynhwysiant Digidol – Simon Jones</u> Roedd SJ yn bresennol i roi cyflwyniad ar Gymunedau Digidol Cymru. Mae SJ yn rhan o ddarparu rhaglen Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru, Cymunedau Digidol Cymru, gan ddarparu cefnogaeth i sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol.</p> <p>Mae'r prosiect yn darparu cefnogaeth i sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl nad ydynt ar-lein ac sy'n cefnogi sefydliadau, gan hyfforddi staff i weithio gyda grwpiau sydd wedi'u hallgau'n ddigidol i ddangos sut i ddefnyddio technoleg. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim.</p> <p>Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi sefydlu mentrau gwirfoddoli cynhwysiant digidol a recriwtio gwirfoddolwyr cynhwysiant digidol a chynghori ar gynnwys cynhwysiant digidol mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd.</p> <p>Mae tystiolaeth wedi'i dangos bod pobl nad ydynt ar-lein yn methu allan ar gyfleoedd i arbed arian, chwilio am waith, dod i hyd i wybodaeth, cadw mewn cysylltiad â theulu, dysgu sgiliau newydd a chael mynediad i wasanaethau pwysig. Mae llawer ohonynt eisoes yn ymdopi â materion fel unigedd, tlodi neu ddiweithdra - materion sy'n cael eu gwaethygu drwy beidio bod ar-lein.</p> <p>Mae Cymunedau Digidol Cymru yn ceisio sefydlu partneriaeth ddigidol ym mhob awdurdod yng Nghymru.</p> <p>Dywedodd RD nad yw SJ wedi trafod diogelwch rhyngwyd fel rhan o'i gyflwyniad, bod troseddau ar-lein yn dod yn fwy cyffredin na throseddau ffisegol gyda llawer o droseddau rhyngwyd ddim yn cael eu hadrodd.</p> <p>Cadarnhaodd SJ fod y prosiect yn cydweithredu drwy'r cynllun Cadetiaid yr Heddlu i wella ac addysgu ar ddiogelwch rhyngwyd.</p>	<p>Aelodau'r Bwrdd i gysylltu â SJ os ydynt am ddilyn trywydd hyn yn eu maes/sefydliad eu hunain</p>
<p>6.</p>	<p><u>Cylch Gorchwyl a Chyfansoddiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru</u> Nododd BJE ddiwygiadau, mae'r rhai mewn coch wedi'u cynnwys yn y ddogfen drafft, mae'r rhain yn seiliedig ar awgrymiadau blaenorol a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd.</p> <p>Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd roi sylwadau ar y newidiadau hyn a rhoi gwybod am unrhyw newidiadau eraill i'w gwneud i gael eu cynnwys yn y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddarau.</p> <p>Cynigiwyd hefyd ym mis Gorffennaf y dylid ailedrych ar gyfnod swydd y Cadeirydd, oherwydd y byddai cyfnod o ddwy flynedd yn fwy priodol.</p> <p>Nododd BF y byddai cadeirydd a etholwyd am flwyddyn yn ffafriol i roi cyfle pellach i aelodau'r Bwrdd gymryd y rôl.</p>	<p>Aelodau'r Bwrdd i roi sylwadau i BJE am Gylch Gorchwyl drafft</p>

	<p>Nododd VW gyfeiriad at gyfarfodydd caeedig, pan mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ymwneud â chynnwys pobl gymaint ag sy'n bosibl.</p> <p>Awgrymodd BJE y gellid cynnwys egwyddorion a gytunwyd gan y Bwrdd fel a gofnodwyd yn y Rhaglen Waith yn y Cylch Gorchwyl hefyd a fyddai'n rhoi sylw i'r meysydd a godwyd gan RD.</p> <p>O ran pŵer i wneud penderfyniadau - cadarnhaodd BJE nad oes gan aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru bŵer penderfyniadau wedi'u dirprwyo ar ran eu sefydliadau. Mae aelodau'r Bwrdd yn cytuno i benderfyniadau mewn egwyddor.</p> <p>Mae hyn yn groes i'r argraff gyffredinol i'r Pwyllgor argymell a'r Bwrdd wneud penderfyniadau.</p> <p>Holodd BF am bosibilrwydd gwirio llywodraethu byrddau partneriaeth rhanbarthol eraill. Os na all y Bwrdd wneud penderfyniadau, mae angen i ni fod yn bendant o ran lle mae'r penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud.</p> <p>Mae cofnodion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gael ar y wefan ranbarthol pan fyddant wedi'u cytuno gan y Bwrdd. Gofynnodd MW am statws papurau cyfarfodydd oherwydd byddai angen i gydweithwyr sy'n cynrychioli sectorau ofyn am farn. Byddai gwneud hyn yn glir yn y Cylch Gorchwyl yn ddefnyddiol.</p>	<p>Anfon unrhyw sylwadau neu ddiwygiadau pellach drwy e-bost at BJE.</p> <p>BJE i gael copïau o Gylch Gorchwyl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eraill.</p> <p>BJE i gysylltu â'r adran gyfreithiol o ran pwerau gwneud penderfyniadau'r Bwrdd.</p>
7.	<p><u>Trosolwg o ddefnydd y Gronfa Gofal Sylfaenol – Morag Olsen.</u></p> <p>Rhoddodd MO ddiweddariad i'r Bwrdd ar sut roedd y gronfa gofal sylfaenol wedi'i defnyddio i gefnogi gwasanaethau gofal sylfaenol ar draws Gogledd Cymru.</p> <p>Mae'r ariannu wedi cefnogi amrywiaeth o welliannau i wasanaethau gan gynnwys nyrsio y tu allan i oriau, ymarferydd awdioleg i ddarparu gwasanaethau awdioleg ym mhob clwstwr Gofal Sylfaenol, hyfforddi gweithwyr gofal iechyd i allu gweithio mewn gwahanol leoliadau, hyfforddi Nyrsys Practis i ddod yn ymarferwyr arbenigol y dyfodol a sefydlu clinigau ystafell driniaeth i leihau faint o gleifion sydd mewn adrannau Brys a meddygfeydd meddyg teulu.</p> <p>Mae gan Gogledd Cymru 33 practis sy'n cynnig gwasanaethau awdioleg ar hyn o bryd. Mae Gofal yn Nes at y Cartref yn edrych ar sut i rannu adnoddau rhwng meddygfeydd meddyg teulu ac ailddosbarthu asedau i roi mynediad i wasanaethau i'r boblogaeth gyfan.</p> <p>Mae'r defnydd o'r grant yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gyda'r bwriad o geisio symud rhai gwasanaethau i gyllid craidd fel bod modd rhoi cynnig ar fentrau newydd.</p>	

	<p>Holodd BF faint o waith sy'n mynd rhagddo gyda phractisau GMS i wneud hwn yn wasanaeth mwy cyfannol.</p> <p>Mae staff PBC yn gweithio gyda phractisau yn ogystal â darparwyr gwasanaeth. Mae timau ystadau yn gweithio gyda phractisau i ddenu cyllid a buddsoddiad gan LIC i wella cyfleusterau.</p> <p>Dywedodd MO wrth LC i gysylltu â Chyfarwyddwr Ardal Ganolog PBC i drafod y fenter ariannu trydydd sector 'Cartref Cynnes ar Brescripsiwn'. Mae PBC hefyd yn ariannu cynrychiolydd Gofalwyr a allai gysylltu â'r cynllun hwn.</p> <p>Dywedodd DS fod perygl i sefydliadau bach sy'n seiliedig mewn cymunedau bach a ddefnyddir gan gleifion i ddod yn anghynaliadwy oherwydd materion a wynebwr o ran diffyg cyllid.</p> <p>Mynegodd GR ei bryder o ran disgwyliad grantiau a chyllid craidd a'r angen i fod yn ofalus wrth drawsnewid i gyllid craidd oherwydd bydd rhyddhau cyllid craidd yn anorfod yn arwain at angen i dorri gwasanaethau.</p>	
8.	<p><u>Fforwm Gwerth Cymdeithasol – Bethan Jones Edwards</u> Nododd BJE fod y Fforwm Gwerth Cymdeithasol yn ofyniad Rhan 2 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.</p> <p>Fel rhanbarth rydym wedi sefydlu grŵp Llywio.</p> <p>Mae aelodaeth y Fforwm yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli trawstoriad eang o rwydweithiau ar draws Gogledd Cymru i gefnogi darparwyr wedi'u seilio ar werth cymdeithasol i ddatblygu dealltwriaeth a rennir o'r rhaglen gyffredin ac i rannu a datblygu arfer da.</p> <p>Mae aelodau'r Fforwm yn cytuno i dderbyn meysydd penodol o waith i arwain arnynt a thynnir sylw at hyn yn rhaglen Waith y Fforwm Gwerth Cymdeithasol.</p> <p>Oherwydd maint y rhanbarth, bwriad y grŵp llywio yw sefydlu fforymau lleol i gynnwys cymysgedd ehangach o aelodaeth i adrodd i GFfGCGC.</p> <p>Mae'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol hefyd yn gysylltiedig â'r rhaglen rhagnodi iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p>Mae VW yn croesawu'r adroddiad a fydd yn cynorthwyo Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd o ran sefydliadau Gwerth Cymdeithasol.</p> <p>Roedd aelodau'r Bwrdd yn cytuno ar yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad.</p>	<p>BJE i ofyn i'r grŵp Llywio ddatblygu cynllun ac amserlenni i ddatblygu Fforymau Gwerth Cymdeithasol lleol</p>

9.	<p><u>Rhaglen Waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – Bethan Jones Edwards</u></p> <p>Cyflwynodd BJE y rhaglen waith wedi'i diweddarau. Caiff sgorau RAG, camau gweithredu a risgiau eu diweddarau bob mis yn dilyn cyfarfodydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae risgiau wedi'u hamlygu'n goch yn cael eu rheoli gan arweinwyr y ffrydiau gwaith unigol.</p>	
10.	<p><u>Strategaeth Gyfathrebu – Gareth Watson</u></p> <p>Roedd Gareth Watson o CSDd yn bresennol gan ei fod wedi bod yn gweithio gyda BJE ar ddatblygu'r strategaeth ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Rhoddodd GW ddiweddariad ar lafar ar y Cynllun Cyfathrebu sy'n ddogfen fewnol i aelodau'r Bwrdd hwn yn unig ac nid yw wedi'i fwriadu i gael ei dosbarthu'n ehangach.</p> <p>Mae GW wedi addasu'r ddogfen o ganlyniad i adborth a gafwyd gan y Bwrdd a gofynnodd am bynciau penodol y bydd y Bwrdd yn rhoi sylw iddynt yn ystod y 3 mis nesaf – gwnaed yr awgrymiadau a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Rhoi gwybod i'r cyhoedd am Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a hyrwyddo amcanion. Croesawodd VW hyn gan fod y bwllch rhwng y cyhoedd a gwaith y Bwrdd yn broblem benodol i'r Bwrdd ac nid yw'r panel dinasyddion rhithwir a sefydlwyd yng Ngogledd Cymru yn cyfathrebu ddigon. Mae angen i'r cyfathrebu bwysleisio beth mae'r Bwrdd yn ei wneud mewn ffordd y bydd y cyhoedd yn ei ddeall. 2. Rhoi gwybod i'r cyhoedd am waith sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' a chynnwys straeon gan nyrsys, Therapyddion Galwedigaethol, straeon cymunedol a negeseuon datblygu'r trydydd sector. 3. Mae'r Bwrdd am gytuno ar ei uchelgais – beth yw ein bwriad, sut byddwn yn gwneud gwahaniaeth – erbyn pa bryd a sut rydym am wneud hyn – bydd angen cyfathrebu hyn. <p>Dywedodd GW fod yr adran farchnata yn cynhyrchu fideos byr a bachog ac infograffeg i gyfleu negeseuon i'r cyhoedd ac mae swyddogion cyfathrebu ar draws Gogledd Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cysonder negeseuon a bydd yn defnyddio'r systemau hyn ar gyfer cyfathrebu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd.</p> <p>Rhoi gwybod am gyflawniadau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn hytrach na chynlluniau'r Bwrdd ar gyfer y dyfodol, gyda ffrwd reolaidd o straeon cadarnhaol yn y wasg.</p> <p>Nododd MO na sonnir am PBC yn glir yn y cynllun cyfathrebu ar dudalen 5.</p>	<p>Cytuno ar 5 neges allweddol, ac mae angen dosbarthu'r negeseuon hynny.</p> <p>5 neges allweddol gan y Bwrdd i fod yn eitem sefydlog ar raglen Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru - RW</p>

<p>11.</p>	<p><u>Papur Made in North Wales – Margaret Hanson</u> Dyweddod MH fod y ddogfen uchod wedi bod drwy lywodraethu'r Bwrdd Iechyd a'i chynnwys yn y pecyn cyfarfod er gwybodaeth ar yr egwyddorion ar gyfer dull system o ran rhagnodi cymdeithasol sydd o fudd i'r claf a'r unigolyn wrth gynnig datblygiad, cefnogaeth a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol.</p> <p>Mae'r ddogfen yn arddangos sicrhau cynaliadwyedd i hyrwyddo iechyd a lles yng Ngogledd Cymru, herio anghydraddoldebau iechyd mae modd eu hosgoi o ran Rhagnodi Cymdeithasol a defnyddio ein hasedau cymunedol a chymdeithasol ar y cyd i ymateb i'r galw cynyddol am help anghlinigol a all effeithio'n gadarnhaol ar ein hiechyd a lles.</p> <p>Cyfeiriodd MH hefyd at Gynhadledd 2025 PBC i hyrwyddo Rhagnodi Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru.</p>	
<p>12.</p>	<p><u>Unrhyw fater arall</u> Mynegodd MW bryder am y wybodaeth a oedd yn y llythyr i'r Gweinidog o ran y PPA. Ymatebodd RS nad yw hyn yn adlewyrchiad teg o safle'r bwrdd iechyd a bu mater cyfathrebu.</p> <p>Cododd DS fater o ran y gwahoddiad a'r gost am fynychu'r PBC (cynhadledd Rhagnodi Cymdeithasol 2025).</p>	<p>DS i drafod y mater yn uniongyrchol gyda BIPBC.</p>
<p>13.</p>	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf Dydd Iau 9 Tachwedd 2017, 9.30am – 12.30pm, Optic, Parc Busnes Llanelwy</p>	